

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Llywodraeth Leol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE)
2018**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 30 Hydref 2018

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	20 Tachwedd 2018
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 20
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Anhysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad yn cytuno â diben y Rheoliadau hyn, fel y'u nodir yn hysbysiad Llywodraeth Cymru.

O ran y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU yn cynnwys darpariaethau datganoledig, efallai y bydd yr Aelodau am drafod paragraff canlynol yr hysbysiad:

"Nid oes gwahaniaeth rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi i'w gywiro, ac fe wnaed y ddeddfwriaeth wreiddiol cyn datganoli. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn."

